Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Swydd Athro/Athrawes Saesneg

(llawn amser, cyfnod penodol)

Cymreictod

Parch

Ymdrech

**Graddfa Gyflog Athro Cymwysedig**

**(£32,433 - £49,944)**

Dyddiad cau: 3 Ebrill 2025

## SWYDD ATHRO/ATHRAWES SAESNEG

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

*"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)*

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Golyga hynny y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu mewn ystafell ddysgu bwrpasol o fewn y gyfadran Saesneg ac Ieithoedd Modern. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi wneud hynny drwy naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 3 Ebrill 2025.**

**Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef yr wythnos yn cychwyn 7 Ebrill 2025.**

Yn gywir

*Clive Williams*

Pennaeth

## DISGRIFIAD SWYDD

### ATHRO/ATHRAWES SAESNEG (llawn amser, cyfnod penodol)

**Graddfa Gyflog Athro Cymwysiedig: £32,433 - £49,944**

**CEFNDIR**
Mae'r ysgol yn chwilio am berson egnïol a deinamig i ymgymryd â swydd addysgu Saesneg llawn amser cyfnod penodol o 1 Medi 2025. Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr sydd am gytundeb rhan-amser. Dylid nodi hynny yn y ffurflen gais.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â grŵp o athrawon brwdfrydig sy'n awyddus i ddarparu'r addysg orau i ddisgyblion o flwyddyn 7 i 13. Bydd cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus addysgu'r pwnc hyd at TGAU. Gall fod cyfle hefyd i ymgeisydd addas addysgu'r pwnc hyd at Safon Uwch.

Mae'r swydd hon yn addas i athrawon sydd newydd gymhwyso neu sydd yn y broses o gymhwyso yn ystod y flwyddyn. Mae rhaglen cefnogaeth gynhwysfawr ar gael i athrawon newydd gymhwyso. Yn ogystal, gall fod cyfle i ymgeisydd addas ddilyn cynllun TAR Cyflogedig Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored i gymhwyso fel athro cymwysedig.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol o Gymreictod, Parch ac Ymdrech.

**DISGWYLIADAU**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon wrth eu gwaith.

**DYLETSWYDDAU**
**Yn atebol i:** Pennaeth y Gyfadran Saesneg a Ieithoedd Byd Eang

- Cyflawni dyletswyddau athro pwnc yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth
- Paratoi, datblygu a chyflwyno gwersi yn y pwnc priodol yn unol â chynlluniau gwaith y gyfadran
- Monitro a chofnodi perfformiad disgyblion
- Meithrin a chynnal safonau uchel o ran ymdrech a disgyblaeth ymysg y disgyblion
- Annog dysgu effeithiol drwy ddefnyddio adborth ffurfiannol ynghyd â phennu targedau clir ar gyfer y dosbarth a gwaith cartref
- Cyfrannu at waith datblygu'r gyfadran, o ran llunio cynlluniau gwaith, deunyddiau a.y.b.
- Mynychu nosweithiau rhieni
- Glynu wrth a chefnogi polisïau'r Ysgol
- Meithrin awyrgylch o barch o fewn a thu hwnt yr ystafell ddosbarth
- Creu a chynnal amgylchedd ddysgu ysgogol

O bryd i'w gilydd, bydd disgwyl i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol o dan gyfarwyddyd Pennaeth y Gyfadran hyd at lefel sy'n gymesur â phrif ddyletswyddau eich swydd.

**Y DDARPARIAETH GWRICWLAIDD BRESENNOL**
Mae Saesneg yn bwnc creiddiol a phwysig yng nghwricwlwm pob disgybl o flwyddyn 7 hyd at 11. O fewn amserlen bythefnos o 60 gwers, caiff y pynciau craidd ddosbarthiad cyfartal o wersi, sef, saith gwers y pythefnos ar draws CA3 ac wyth gwers y pythefnos yng CA4.

Darperir cyrsiau Iaith a Llên ar gyfer TGAU i fwyafrif o ddisgyblion blwyddyn 10 presennol ac mae'r adran yn brysur yn paratoi at ddysgu'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (unigol a dwyradd) ym Medi 2025. Darperir cwrs Llenyddiaeth Saesneg at Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

Mae gan y gyfadran enw da am ei llwyddiannau academaidd a'i chyfleoedd allgyrsiol cyfoethog. Cyniga'r swydd arbennig hon y sialens i adeiladu ar y sail gref sydd eisoes yn bodoli ac i ddylanwadu ar ddatblygiad y gyfadran i'r dyfodol.

Disgwylir i'r athro/athrawes newydd gyfrannu at weledigaeth yr ysgol o ran dysgu ac addysgu ac i wireddu gwerthoedd creiddiol yr ysgol.

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • Statws cymwysedig fel athro/athrawes neu wedi derbyn ar raglen TAR Cyflogedig Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored<br>• Gradd berthnasol mewn pwnc sy'n berthnasol i'r maes/meysydd cwricwlaidd penodol | |
| PROFIAD | • Gwybodaeth bynciol eang a pherthnasol<br>• Profiad addysgu llwyddiannus<br>• Y gallu a'r parodrwydd i addysgu'r pwnc hyd at TGAU a/neu Safon Uwch | • Tystiolaeth o ymarferydd a berchir yn yr ystafell ddosbarth gan Ysgol arall (yn ychwanegol i brofiad ymarfer dysgu pan yn fyfyriwr/myfyrwraig) |
| SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Ymrwymiad i feithrin cefnogaeth i holl ehangder Cymreictod a'r pwnc drwy'r ysgol gyfan<br>• Y gallu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ymgyrraedd at eu potensial llawn o fewn awyrgylch gyfeillgar a hunan ddisgybledig<br>• Ymarferydd hunan feirniadol sydd am fod yn flaengar mewn cynlluniau gwella ysgol parhaus<br>• Trefnus a chyda'r gallu i weithio gyda thîm o athrawon mewn blaengarwch gwella adran ac ysgol | • Sgiliau TGCh<br>• Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol |
| ERAILL | • Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg<br>• Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<br>• Gwiriad DBS manwl | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION**

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion Addysg | Ceredigion County Council Careers

## CYFWELD

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef yr wythnos yn cychwyn **7 Ebrill 2025**

Dyddiad cau: **3 Ebrill 2025**

# CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

## CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

## ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.



Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.

Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.